COVID-19 Update: 20th April

This evening's update covers: the gin distillery, printers, and other local businesses switching production to help keep Cardiff key workers safe; a reminder of changes to Free School Meals provision; and the official opening of Dragon's Heart Hospital.

The gin distillery, printers, and other local businesses switching production to help keep Cardiff key workers safe

Local business, including a gin distillery and a company producing branded promotional materials have been helping Cardiff Council's response to COVID-19 by switching their production streams at short notice to produce hand sanitiser and other personal protective equipment.

Cabinet Member for Economic Development, Cllr Russell Goodway said: "Having a flexible local economy that has been able to respond rapidly to the changing demands brought about by the outbreak of COVID-19 has been incredibly helpful for us as a local authority as we respond to the virus."

South Wales' first full-scale gin distillery, Hensol Castle Distillery is usually in the business of creating high-quality gins and spirits in the unique location of a grade 1 listed castle in the Vale of Glamorgan, but now they've taken orders from Cardiff Council for enough hand sanitiser to last almost a month.

Manufacturing face visors is a far cry from printing custom branded promotional materials like ring binders, signs, labels and exhibition displays but Ferndale based business Screentec went from business as usual to producing a prototype mask and making deliveries of the finished product within two weeks.

Partner companies under the Resource Group umbrella have also been doing their bit. Inspired by a local resident, Ashley Jay, who had been making face shields on his 3D printers at home and giving them away free to the NHS and local care homes, the Chairman of Resource, Nick Williams, assembled a team to manufacture a high quality single-use face shield for the healthcare sector and others working on the front line in the community.

In just a few days, the team turned an existing staff gym facility at Wentloog Corporate Park into a 3D print farm, with 50 3D printers brought from Amazon overnight and have since produced thousands of face shields.

Cardiff based manufacturers BCB International have been trading for 160 years, producing life-saving equipment for the military and police, but have moved quickly to respond to the outbreak of COVID-19 and are now supplying Cardiff Council's key workers with hand sanitiser, gloves, alcohol wipes and more.

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23675.html

Changes to Free School Meals

Families with children eligible for Free School Meals will now be able to buy food using funds deposited directly into their bank account, whilst schools are closed due to COVID-19. This will provide parents with more flexibility on where they can shop and the voucher scheme which is currently being delivered will continue to run alongside the new arrangement.

Cardiff Council has developed the new arrangement which will deliver BACS payments using Parent Pay, an online payment system already used by 91 of Cardiff's schools.

The Council is assisting the remaining 34 schools in signing up to the system to ensure everyone can access the regular payment scheme.

Parents or carers with children who are eligible for Free School Meals will receive a letter during next week which will provide information on how to receive their fortnightly payment. For those who are not yet using ParentPay, there will be a step by step guide on how to register and contact details should they require further assistance.

Parents and carers are encouraged to register to receive payments as soon as they receive their letters so that they can receive their first BACS payments from Monday 27, April.

Click here to read the full story:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23665.html

Official opening of Dragon's Heart Hospital

A big thank you to all Council staff for their hard work and professionalism behind the scenes to ensure that Dragon' s Heart Hospital was able to open today.

The 1,500 bed temporary hospital, which has been built on the pitch in the Principality Stadium, was opened by Welsh rugby star Dr Jamie Roberts this afternoon, who is temporarily working for the NHS as a clinical innovation fellow.

Politicians, senior representatives from the Cardiff & Vale University Health Board and Prince Charles gave their thanks to all the people and organisations that have worked together to ensure that the temporary hospital was able to be built at breath-taking speed.

Cllr Caro Wild Cabinet Member for Strategic Planning and Transport said: "This project shows what can be done at phenomenal speed in very difficult circumstances. Council staff from a number of departments including planning, highways, building control and economic development have been working hard behind the scenes to ensure that the project could be delivered and the facility operates correctly.

“The Council will be providing parking for both NHS staff and contractors in the city centre, and we are working with Cardiff Bus to ensure that NHS staff working shifts are able to get to and from the stadium when they are working.”

Cardiff Council's First Point of Contact Hospital Team which is part of the Independent Living Services, and known as The Pink Army, will also be working at the field hospital. They will work alongside Health and Social Care colleagues, to support a range of patients when they are ready to be discharged from hospital.

The NCP car park has been deep cleaned to ensure that contractors that are working on the new hospital are able to park their car safely. South Wales Police will also be carrying out regular patrols of the car park to ensure public safety.

NHS staff will be using the car park at Sophia Gardens with shuttle buses provided by Cardiff Bus so that staff can get to and from the stadium.

Diweddariad COVID-19: 20 Ebrill

Mae’r diweddariad heno yn cynnwys: y ddistyllfa gin, argraffwyr a busnesau lleol eraill yn newid eu cynnyrch i helpu i gadw gweithwyr allweddol Caerdydd yn; Newidiadau i Brydau Ysgol am Ddim; ac agor Ysbyty Calon y Ddraig yn Swyddogol.

Y ddistyllfa gin, argraffwyr a busnesau lleol eraill yn newid eu cynnyrch i helpu i gadw gweithwyr allweddol Caerdydd yn

Mae busnesau lleol, yn cynnwys distyllfa gin a chwmni sy’n cynhyrchu deunydd hyrwyddo â brand wedi bod yn helpu ymateb Cyngor Caerdydd i COVID-19 trwy newid eu ffrydiau cynhyrchu ar fyr-rybudd i gynhyrchu diheintydd dwylo a chyfarpar diogelwch personol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd, y Cynghorydd Russell Goodway: "Mae economi leol hyblyg sydd wedi gallu ymateb yn gyflym i'r galw newidiol yn sgil argyfwng COVID-19 wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i ni fel awdurdod lleol wrth i ni ymateb i'r firws."

Fel arfer, gin a gwirodydd o safon uchel ydy busnes distyllfa gin graddfa lawn gyntaf de Cymru, Castell Hensol, yn eu castell rhestredig gradd 1 ym Mro Morgannwg, ond maent nawr wedi cymryd archebion gan Gyngor Caerdydd am ddigon o ddiheintydd dwylo i bara bron i fis.

Mae cynhyrchu fisorau wyneb yn dra gwahanol i argraffu deunyddiau hyrwyddo brand megis ffolderi, arwyddion, labeli a deunydd arddangos ond newidiodd busnes Screentec yng Nglynrhedynog eu busnes arferol i gynhyrchu mwgwd protoeip a danfon y cynnyrch gorffenedig o fewn pythefnos.

Mae cwmnïau partner o dan ymbarél Resource Group hefyd wedi bod yn gwneud eu rhan. Wedi'i ysbrydoli gan breswylydd lleol, Ashley Jay, a oedd wedi bod yn gwneud amddiffyniadau wyneb ar ei argraffwyr 3D gartref a’u rhoi am ddim i’r GIG a chartrefi

gofal lleol, daeth Cadeirydd Resource, Nick Williams, â thîm at ei gilydd i gynhyrchu amddiffynnydd wyneb untro o ansawdd uchel ar gyfer y sector gofal iechyd ac eraill sy'n gweithio yn y rheng flaen yn y gymuned.

Mewn ychydig ddiwrnodau, trodd y tîm gyfleuster campfa i staff ym Mharc Corfforaethol Gwynllŵg yn fferm brintio 3D a phrynu 50 argraffydd 3D gan Amazon dros nos, a bellach maent wedi argraffu miloedd o amddiffynwyr wyneb.

Mae'r gweithgynhyrchwyr o Gaerdydd, BCB International, wedi bod yn masnachu am 160 o flynyddoedd, gan gynhyrchu offer achub bywyd i'r lluoedd arfog a'r heddlu, ond maent wedi symud yn gyflym i ymateb i bandemig COVID-19 ac maent bellach yn darparu diheintydd dwylo, menig, tyweli alcohol a mwy ar gyfer gweithwyr allweddol Cyngor Caerdydd.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23676.html

Newidiadau i Brydau Ysgol am Ddim

Bydd teuluoedd â phlant sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim nawr yn gallu prynu bwyd gan ddefnyddio arian a gaiff ei roi'n uniongyrchol yn eu cyfrif banc, tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19. Bydd hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i rieni o ran ble y gallant siopa a bydd y cynllun talebau a ddarperir ar hyn o bryd yn parhau i gael ei gynnal ar y cyd â'r trefniadau newydd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu trefniadau newydd fydd yn gwneud taliadau BACS gan ddefnyddio Parent Pay, system talu ar-lein sydd eisoes yn cael ei defnyddio gan 91 o ysgolion Caerdydd.

Mae'r Cyngor yn cynorthwyo'r 34 o ysgolion sy'n weddill i gofrestru gyda'r system i sicrhau y gall pawb gael mynediad i gynllun taliadau rheolaidd.

Bydd rhieni neu ofalwyr â phlant sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn cael llythyr yn ystod yr wythnos nesaf fydd yn rhoi gwybodaeth iddynt ar sut i dderbyn y taliad fesul pythefnos. Ar gyfer y rheiny nad ydynt yn defnyddio ParentPay eto, bydd canllaw cam wrth gam ar sut i gofrestru yn ogystal â manylion cyswllt os bydd angen rhagor o gymorth arnynt.

Anogir rhieni a gofalwyr i gofrestru i gael taliadau cyn gynted ag y cânt eu llythyrau er mwyn gallu derbyn eu taliadau BACS cyntaf o ddydd Llun 27 Ebrill.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23666.html

Agor Ysbyty Calon y Ddraig yn Swyddogol

Diolch yn fawr iawn i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod Ysbyty Calon y Ddraig wedi gallu agor heddiw.

Agorwyd yr ysbyty dros dro sydd â 1,500 o welyau, ac sydd wedi'i adeiladu ar gae Stadiwm y Principality, gan seren rygbi Cymru Dr Jamie Roberts y prynhawn yma. Mae e'n gweithio dros dro i'r GIG fel cymrawd arloesi clinigol.

Bu gwleidyddion, uwch-gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Tywysog Siarl yn diolch i'r holl bobl a sefydliadau sydd wedi cydweithio i sicrhau bod yr ysbyty dros dro yn gallu cael ei adeiladu ar frys aruthrol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild: "Mae'r prosiect hwn yn dangos yr hyn y gellir ei wneud ar gyflymder aruthrol mewn amgylchiadau anodd iawn. Mae staff y Cyngor o nifer o adrannau gan gynnwys cynllunio, priffyrdd, rheoli adeiladu a datblygu economaidd wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i sicrhau y gellid cyflawni'r project a bod y cyfleuster yn gweithredu'n gywir.

"Bydd y Cyngor yn cynnig lleoedd parcio i staff y GIG ac i gontractwyr yng nghanol y ddinas, ac rydym yn gweithio gyda Bws Caerdydd i sicrhau bod staff y GIG sy'n gweithio shifftiau yn gallu mynd a dod o'r stadiwm pan fyddant yn gweithio."

Bydd Tîm Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf Cyngor Caerdydd, sy'n rhan o'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol ac a elwir Y Fyddin Binc, hefyd yn gweithio yn yr ysbyty maes. Byddan nhw'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi amrywiaeth o gleifion pan fyddan nhw'n barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae maes parcio'r NCP wedi'i lanhau'n ddwfn er mwyn sicrhau bod contractwyr sy'n gweithio ar yr ysbyty newydd yn gallu parcio eu ceir yn ddiogel. Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn cadw llygad yn rheolaidd ar y maes parcio er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Bydd staff y GIG yn defnyddio maes parcio Gerddi Sophia gyda bysus gwennol gan Bws Caerdydd fel y gall staff fynd a dod o'r stadiwm.